Llyfrgell Bywyd

Pecyn Adnoddau

H4A
Celf ar y Blaen Head4Arts

Cynnwys

3 **Cyflwyniad**

4 **Amlinelliad**

5 **Rhan 1: Pethau i'w wneud yn syth**

8 **Rhan 2: Cynllunio meysydd dysgu a phrofiad**

9 Bachwch nhw i fewn

10 Llythrennedd

11 Gwyddoniaeth a TGCh

12 Rhifedd

13 Y Dyniaethau

14 Celfyddydau Mynegiannol

15 Iechyd a Lles

16 **Rhan 3: Newid y byd**

18 **Casgliad**

19 **Atodiad 1: Y Byd Mewn Cydbwysedd**

20 **Atodiad 2: Y Byd Allan o Gydbwysedd**

21 **Atodiad 3: Sylweddiad y Dyn**

22 **Atodiad 4: Pawb yn Cydweithio**

23 **Gwefannau defnyddiol**



Cyflwyniad

‘Nid ydym erioed o’r blaen wedi cael cymaint o ymwybyddiaeth am yr hyn rydym yn ei wneud i’r blaned, a byth o’r blaen rydym wedi cael y pwer i wneud rhywbeth am hynny…Mae dyfodol dynoliaeth ac, yn wir, yr holl fywyd ar y ddaear, bellach yn dibynnu arnom ni.’

Syr David Attenborough

Mae ein byd yn methu. Mae’r systemau anhygoel a’r bywyd gwyllt sy’n cadw cydbwysedd ar ein planed yn cwympo. Bob dydd, mae 100+ o rywogaethau yn diflannu. Rydyn ni’n ffeindio ein hunain yn byw yn ystod digwyddiad y mae gwyddonwyr wedi’i alw’n 6ed difodiant torfol y Ddaear. Yn y gorffennol, achoswyd y digwyddiadau difodiant torfol hyn gan ffenomenau naturiol fel asteroidau a gweithgaredd folcanig. Y tro hwn, mae’n wahanol iawn. Y tro hwn, mae’n digwydd oherwydd ni.

Mae yna dal i fod gobaith. Mae bodau dynol yn rhan o fioamrywiaeth ryfeddol y byd, a mae angen i ni gofio ein cyfrifoldeb tuag at gadw’r byd mewn cydbwysedd. Os gallwn edrych ar yr hyn sy’n digwydd, deall y ffordd anhygoel y mae bywyd ar y ddaear yn gweithio, a bwrw ati i ddelio ag ef, yna mae rheswm da i obeithio am ddyfodol gwell. Mae gennym ni amser i wneud gwahaniaeth, a gall pob un ohonom wneud cyfraniad sylweddol tuag at gywiro’r cydbwysedd.

Nod y llyfr hyfryd hwn yw ysbrydoli’ch plant i wneud yn union hynny. Bydd y llyfr yn mynd â’ch plant ar antur emosiynol a dychmygus, yn sbarduno eu diddordeb, gofyn cwestiynau iddynt a’u pweru yn y pen draw i actio. Mae’n sbringfwrdd tuag at ddeall ac, yn fwy pwysig, gweithredu.

Mae’r pecyn athrawon hwn yn ei gwneud yn hawdd i gyflwyno gwersi sy’n cysylltu â Chwricwlwm Newydd Cymru a’i gyflwyno mewn ffordd ddeinamig. Bydd y pecyn yn cynnwys y dyniaethau, y celfyddydau mynegiannol, gwyddoniaeth a chyd-ddibyniaeth, datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, iechyd emosiynol a lles. Byddwch hefyd yn dod o hyd i weithgareddau hwyl ymarferol a fydd yn ennyn diddordeb plant wrth ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach, cariad at y byd naturiol, ac awydd i weithredu.

Oes, mae yna obaith!

Amlinelliad

Bydd y pecyn adnoddau hwn yn eich helpu chi a'ch dosbarth chi i fynd ar daith i archwilio Llyfrgell Bywyd, i ddarganfod mwy am fioamrywiaieth a natur lleoll a phell i ffwrdd, i wneud cysylltiadau gyda byd natur a'i fwynhau, ac yn olaf i ddarganfod beth gallwch chi'i wneud er mwyn helpu newid y byd. Mae'r syniadau yn y pecyn hwn wedi'u harlunio fel awgrymiadau a phwyntiau i ddechrau: gallwch ddewis y rhai sydd yn siwtio eich dosbarth chi, a'u haddasu a'u newid er mwyn creu rhywbeth newydd. Yn olaf, rydym ni'n herio eich dosbarth i wneud newid yn y ffordd mae eich hysgol chi yn cysylltu gyda byd natur, ac i gymryd cam mawr tuag at frwydro yn erbyn colled bioamrywiaeth a chwalfa hinsawdd.

Mae **RHAN 1: PETHAU I'W WNEUD YN SYTH** yn cynnig awgrymiadau am weithgareddau gallwch chi eu gwneud mewn un neu ddau sesiwn yn y dosbarth yn syth ar ôl darllen y llyfr, i helpu chi a'ch dosbarth i ddechrau ar eich taith o archwilio'i themau a'i gwestiynau.

Mae **RHAN 2: CYNLLUNIO MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD** yn cynnig syniadau am weithgareddau y gallwch chi eu gwneud dros dymor cyfan o waith, wedi'u trefnu i fewn i feysydd allweddol o ddysgu ar gyfer Cyfnod Allweddol 2.

Mae **RHAN 3: NEWID Y BYD** yn cynnig rhai bwyntiau i ddechrau a syniadau am eich dosbarth er mwyn i chi ymroddi i wneud newidiadau pwysig a thrawiadol yn eich bywydau y bydd yn cael effaith go-iawn ar gyfer byd natur. Fel mae'r llyfr yn dweud, rydym ni i gyd yn Warchodwyr y Llyfrgell Bywyd nawr, a mae'n rhaid i ni gyd ei gadw'n ddiogel.

Rhan 1

Pethau i'w wneud yn syth

Rydych chi a'ch dosbarth wedi darllen *Llyfrgell Bywyd*. Beth gallwch chi'i wneud yn syth er mwyn plymio i fewn i archwilio themau y llyfr?

Trafodwch y llyfr

Efallai bydd eich dosbarth yn teimlo cymysgedd o emosiynau ar ôl gorffen y llyfr. Rhai gwestiynau gallwch chi eu trafod yw:

Sut mae'r llyfr yn gwneud i chi deimlo?

Pwy neu beth yw'r dyn yn cynrychioli?

Sut ydy'r cynefinoedd gwahanol yn y llyfr yn newid dros amser a pham ydyn nhw'n newid?

Beth ydy'r Llyfrgell Bywyd yn cynrychioli?

Sut gallwn ni newid teimladau pryderus i fewn i deimladau gobeithiol?

Ydyn ni'n gallu creu cynllun am weithgareddau ein dosbarth dros yr wythnosau nesaf?

Cysylltwch i'r pedwar darlun allweddol

Adnoddau: Llyfr Llyfrgell Bywyd neu'r lluniau yn atodiadau 1-4

Dychwelwch i'r llyfr ac edrychwch ar y pedwar darlun allweddol: "Y Byd Mewn Cydbwysedd", "Y Byd Allan o Gydbwysedd", "Sylweddiad y Dyn" a "Pawb yn Cydweithio".

Trafodwch sut mae'r rhain yn cysylltu i'r darluniadau gan eich dosbarth. A ddewisiodd unrhywun i lunio un o'r darluniadau yma? Pam ydy'r rhain yn rhannau mor bwerus o'r stori? Beth sydd yn newid ar draws y darluniadau? Sut maen nhw'n gwneud i ni deimlo.

Bydd rhan o'r gwaith yn hwyrach ymlaen yn y pecyn hwn yn dod yn ôl i'r darluniadau yma, a gallwch barhau i'w defnyddio nhw er mwyn dechrau trafodaethau wrth i chi barhau ar eich taith drwy'r llyfr.

Canolbwyntiwch ar ddarlun

Adnoddau: papur, pensiliau lliw, amserwr

Beth yw'r darlun mwyaf pwerus yn y stori?

- Rhowch darn o bapur a phensiliau lliw i bob aelod o'ch dosbarth a gosodwch yr amserwr am ddeg munud.
- Gofynnwch i bob un aelod i dynnu llun o'r darlun mwyaf pwerus o'r stori sydd wedi aros yn llygaid ei meddwl, heb edrych ar y darluniadau o'r llyfr na chwaith gwaith ei gilydd!
- Defnyddiwch y darluniadau yma i ddechrau sgwrs.
- Pam ydy'r rhain yn rhannau mor bwysig o'r stori? Pam ydy rhai pobl wedi gwneud penderfyniadau gwahanol i eraill?

Mapio-meddwl fel dosbarth

Adnoddau: darnau mawr o bapur, pinnau ffelt, amserwr

Gan aros mewn grwpiau bach, gofynnwch i'ch dosbarth chi i fapio'r cwestiynau i ddod (ac eraill os caiff rhai syniadau newydd). Rhowch amser penodol iddyn nhw er mwyn dod fyny ag atebion, ac wedyn eu rhannu gyda'r grwp.

Pa bynciau'n gysylltiedig gyda Llyfrgell Bywyd ydyn ni eisiau darganfod mwy amdanynt?

Beth gall bob un ohonom ni ei wneud er mwyn helpu newid y byd? Rhowch tro ar fapio hwn ar hyd y llinellau yma:

Beth gallwn gwneud fel dosbarth? Fel ysgol? Fel teulu? Fel cenedl? Ar draws y byd?

Ffynnon geiriau: gweithgareddau i gasglu gwybodaeth yn gyflym

Adnoddau: darnau mawr o bapur, pinnau ffelt, amserwr

Gwnewch ardal wag yn eich ystafell ddosbarth a llinellu'r dosbarth mewn timau o 5-6, pob un yn gwynebu darn mawr o bapur.

Bydd angen i bob tîm i ysgrifennu gymaint o eiriau ar eu darn o bapur â phosib mewn amser penodol, yn cysylltu gyda thema penodol.

Bydd un person yn rhedeg ymlaen, ysgrifennu gair, a rhedeg yn ôl a phasio'r pen i'r person nesaf ac ymuno ar gefn y grwp.

Darganfyddwch faint o eiriau gall eich dosbarth ysgrifennu mewn munud ar themau gwahanol. Gallwch ddewis themau sydd yn cysylltu â lefel gwybodaeth eich dosbarth, a dod yn ôl at y gêm yma fel dull asesu ar ddiwedd y tymor.

Themau yr awgrymir:

Newid hinsawdd

Bioamrywiaeth

Byd natur

Cynhesu byd-eang

Sut y gall bodau dynol helpu

Rhywogaethau dan berygl

Beth sydd yn effeithio ein byd ni

Beth sydd yn digwydd nesaf?: Ysgrifennu stori

Adnoddau: papur, pinnau, amserwr

- Gofynnwch i grwpiau bach gydweithio i fapio rhan 2 o stori Llyfrgell Bywyd, gan ddechrau pan mae'r Dyn a'r Ferch yn cychwyn ar eu taith i ledaenu eu neges ar draws y byd.
- Rhowch amser penodol iddyn nhw i ddod fyny â dechrau, canol a diwedd y stori ac wedyn eu cyflwyno i weddill y dosbarth.
- Gallwch wedyn ddefnyddio'r straeon newydd yma i strwythuro tasgiau ysgrifennu creadigol naillai fel unigolion neu mewn grwpiau.

Cadwch pethau'n lleol

Er mwyn casglu syniadau ac ysbrydoliaeth ar gyfer y gwaith yr awgrymir yn Rhan 2, ymchwiliwch yr ardal lleol o amgylch yr ysgol a dewch o hyd i unrhyw broblemau bioamrywiaeth sydd yn effeithio ble rydych chi'n byw.

Gallai'r rhain fod yn ddiffyg perthi anrhefnus i fywyd gwyllt eu defnyddio fel llwybrau diogel, diffyg ardaloedd gwyllt o wair ar gyfer trychfilod, ardaloedd gwag o brysgoed y gellir eu defnyddio fel caeau blodau gwyllt er mwyn denu pilipalod a gwenyn, ardaloedd llawn sbwriel, a diffyg cyfleustrau ailgylchu.

Gall hefyd bod problemau mwy: er enghraifft, ansawdd dwr mewn afonydd neu nentydd neu gwaith adeiladu ar y chweil fydd yn effeithio bywyd gwyllt lleol.

Rydym ni'n eich cynghori i edrych ar beth fedrwch chi'i wneud yn lleol ac yn genedlaethol ar hyd eich gwaith dosbarth er mwyn gwella gwybodaeth lleol am golled bioamrywiaeth a datblygu cysylltiadau personol i'r gwaith.

Rhan 2

Cynllunio meysydd dysgu a phrofiad

Yn y rhan hon, byddem ni'n cynnig awgrymiadau am weithgareddau gallwch chi eu gwneud yn yr ystafell ddosbarth i'w hadeiladu i fewn i'ch cynllunio chi ar gyfer tymor o waith a rhoi Llyfrgell Bywyd ar galon eich hastudio.

Y neges mwyaf bwysig i'w harchwilio gyda'ch dosbarth yw bod yr holl syniadau a chwestiynau yma wedi'u cysylltu gyda'i gilydd. Mae bioamrywiaeth, y ffynnonellau egni rydym ni'n eu defnyddio, y bwyd rydym ni'n bwyta, y cynefinoedd rydym ni'n diogelu, a'r prosiectau cadwraeth rydym ni'n archwilio i gyda wedi'u cysylltu i'r syniad o ailgydio mewn cydbwysedd naturiol y blaned. Rydym ni'n eich hargymell i siarad am y syniadau yma ar lefel lleol a rhyngwladol gyda'ch dosbarth a trafod y syniad bod gwella'r blaned mewn ffordd effeithiol dim ond yn gallu digwydd os rydym ni'n ystyried nifer o ffactorau gwahanol. Y ffordd gorau i wneud hwn yw i ni gydweithio: i ni, fel pobl dynol, i ddod at ein gilydd, defnyddio ein sgiliau gwahanol, a meddwl am greu planed gwell am y bobl sydd yn dod ar ein holau ni.

1. Bachwch nhw i fewn

Pa fachau allwch chi eu rhoi i'ch dosbarth er mwyn ennyn eu diddordeb yn y thema hon? Rhai awgrymiadau yw:

- Diwrnod gwisgo i fyny fel anifeiliaid
- Ymweliad â choetir neu warchodfa natur lleol
- Helfa o amgylch tir yr ysgol yn dod o hyd i wrthrychau sy'n ymwneud â themâu'r llyfr
- Llythyr gan y Ferch yn gofyn am eu cymorth nhw

2. Llythrennedd

- Ysgrifennwch lythyr at yr awdurdod lleol neu'r Senedd yn sôn am fater bioamrywiaeth allweddol lleol, gan gysylltu â'r gwaith a wneir yn Rhan 1.
- Ysgrifennwch ddisgrifiad o'r Dyn Oedd Yn Casau Pryfed.
- Ysgrifennwch ddisgrifiad o'r Ferch Oedd Yn Siarad Ag Anifeiliaid.
- Creuwch boster i godi ymwybyddiaeth o fater bioamrywiaeth lleol.
- Rhowch brif gymeriadau y stori yn y "sedd boeth" ac wedyn ysgrifennu deialog rhyngddynt.
- Defnyddiwch y darlun "sylweddoli" i ysbrydoli ysgrifennu creadigol am yr hyn sy'n mynd trwy ben y Dyn (Pam ydy e'n crio? Beth ydy e'n teimlo? Pa fath o gwestiynau ydy e'n gofyn iddo'i hun?) Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r ymarfer sedd boeth, hefyd.
- Llwyfannwch Llwybr Cydwybod ar gyfer pob un o'r cymeriadau. Am sut i wneud hyn, ewch i:

  https://dramaresource.com/conscience-alley/

  Gallwch ddefnyddio canfyddiadau o'r Llwybr Cydwybod i ysbrydoli ysgrifennu creadigol, deialog a gwaith llythrennedd arall.
- Creu cymeriad newydd iddynt gwrdd a pharhau â'u hanturiaethau yn rhan 2 y stori.
- Dyluniwch dudalen wê i roi gwybodaeth am fater bioamrywiaeth lleol a chynnig awgrymiadau ar gyfer camau y gall pobl leol eu gwneud. Archwiliwch iaith berswadiol: sut allwch chi gael pobl i deimlo'n ysbrydoledig ac yn obeithiol, ac i newid eu hymddygiad?
- Darganfyddwch am rywogaethau sydd mewn perygl yng Nghymru a chreu ffeil ffeithiau amdanynt.

3. Gwyddoniaeth a TGCh

- Creu map cynefin o dir eich ysgol a defnyddiwch côd lliw i ddangos yr holl gynefinoedd.
- Defnyddiwch y mapiau hyn fel man cychwyn i gynnal arolwg o dir eich ysgol gan edrych ar wahanol gynefinoedd. Fe allech chi gyfrif trychfilod mewn rhannau o gae'r ysgol neu berthi ac yna cadw'r ardaloedd hyn yn anhrefnus a dychwelyd mewn ychydig fisoedd i weld a yw'r niferoedd wedi cynyddu. Edrychwch ar wahanol ffactorau e.e. golau haul/cysgod yn yr ardal, nifer yr ymwelwyr sydd yn yr ardal, pa fathau o drychfilod gwahanol a welwch ym mhob cynefin. Gallai hwn fod yn arolwg parhaus rydych chi'n gweithio arno dros gyfnod hir ac y gallai ysbrydoli nifer o feysydd dysgu.
- Archwiliwch gylchredau bywyd planhigion ac anifeiliaid: efallai'r rhai a sonir amdanynt yn y llyfr. Archwiliwch eu cadwyni bwyd a'u cynefinoedd.
- Gwnewch smwddi neu gebab ffrwythau ac yna archwiliwch bwysigrwydd pryfed wrth beillio a chynhyrchu'r ffrwythau hyn.
- Ystyriwch sut y gellir gwella tir yr ysgol ar gyfer bywyd gwyllt. Allwch chi blannu ardal blodau gwyllt? Allwch chi greu pwll bach ar gyfer pryfed ac adar? Allwch chi hongian porthwyr adar?
- Research plants that are good pollinators and include these in planning changes to the school grounds.
- Gwnewch "fomiau gwenyn" a rhowch un i bob plentyn "blannu" ar ei ffordd adref o'r ysgol.
- Dynodwch ardal o dir yr ysgol i fod yn gyfeillgar i bryfed a gwnewch arolwg o ddosbarthiadau eraill yn yr ysgol i ofyn iddynt pa flodau yr hoffent eu gweld yn cael eu plannu yno. A oes ffyrdd eraill o wneud yr ardaloedd hyn yn gyfeillgar i bryfed e.e. gwneud boncyffion neu adael bowlenni o ddŵr allan?
- Dyluniwch ac adeiladwch byrddau adar, porthwyr adar, blychau adar, gwestai byg a / neu abwydyn i'w osod ar dir yr ysgol.
- Yn Llyfrgell Bywyd, mae llawer o boblogaethau o anifeiliaid mewn perygl. Archwiliwch eich poblogaethau anifeiliaid lleol a gweld pa rai sydd mewn perygl neu'n ei chael hi'n anodd e.e. draenogod, ystlumod, amffibiaid. Beth ellir ei wneud i wella eu cynefinoedd, mynediad at fwyd, neu ddiogelwch? Cyfeiriwch yn ôl at ddelwedd y Dyn yn llosgi'r llyfrau, a gweld a allwch chi weld enwau anifeiliaid sydd mewn perygl yn y fflamau. Pam maen nhw mewn perygl?
- Yn y llyfr, pan anghofir enwau anifeiliaid, mae'r anifail yn diflannu. Beth yw ystyr "difodiant"? Dewiswch anifail sydd wedi difodi yn ddiweddar e.e. Quagga, Teigr Tasmania, Great Auk, Passenger Pigeon. Pryd wnaethon nhw ddiflannu? Pam ddigwyddodd hyn?
- Creuwch restr o rai o'r creaduriaid rydyn ni wedi'u colli yn ystod y pum mlynedd diwethaf gan ddefnyddio peiriant chwilio.
- Defnyddiwch amrywiaeth o feddalwedd i gyflwyno'ch canfyddiadau.
- Gwnewch fideo yn egluro'ch darganfyddiadau ar gyfer cynulleidfa.
- Ymchwiliwch i wahanol fathau o ynni: adnewyddadwy yn erbyn tanwydd ffosil.

4. Rhifedd

- Creuwch graff yn ymwneud â gwaith arolwg tir eich ysgol neu golled pryfed dros yr ugain mlynedd diwethaf.
- Cofnodwch wybodaeth o'ch arolygon dosbarth ar dablau neu graffiau.
- Archwiliwch gymesuredd pryfed fel pilipalod neu fuchod coch cwta.
- Archwiliwch gyfesurynnau map cynefinoedd neu warchodfeydd natur penodol yn eich ardal leol. Efallai y gallech chi greu llwybr bywyd gwyllt o amgylch yr ysgol i blant eraill yr ysgol ei ddilyn?

5. Y Dyniaethau

- Archwiliwch straeon sy'n ymwneud ag anifeiliaid a natur o bob cwr o'r byd fel straeon Anansi Affricanaidd / Caribïaidd a straeon y Cenhedloedd Cyntaf am sut greuwyd gwahanol anifeiliaid neu dirweddau (Sut mae'r Arth yn Colli Ei Gynffon / Y Frân Amryliw). Pam mae'r straeon hyn yn dal yn bwysig i ni eu clywed heddiw?

- Archwiliwch straeon Cymraeg sy'n siarad am dirwedd ac anifeiliaid fel stori Ceridwen / Gwion a'r Wrach a boddi Cantre'r Gwaelod. A oes gan y straeon hyn negeseuon pwysig inni heddiw?

- Beth yw datgoedwigo a sut mae'n effeithio ar fywyd gwyllt yng Nghymru ac yn fyd-eang? Beth yw cynhesu byd-eang a sut mae'n effeithio ar fodau dynol? Sut gall pob unigolyn helpu i'w leihau? Cysylltwch y gwaith hwn â dwy ddelwedd allweddol y byd yn y llyfr: "mewn cydbwysedd" ac "allan o gydbwysedd". Beth sy'n digwydd yn y ddau lun hyn? Sut mae pethau wedi newid o un i'r llall?

- Archwiliwch y gwahanol gynefinoedd a grybwyllir yn y llyfr e.e. anialwch, coedwigoedd, twndra yn defnyddio mapiau, Google Earth ac ati. Sut olwg sydd ar y gwahanol rannau hyn o'r byd? Pa fath o greaduriaid sy'n byw yno? Beth yw'r gwahanol heriau sy'n eu hwynebu?

- Creuwch stori gydag un o'r creaduriaid wedi'u peryglu fel y prif gymeriad, gan ganolbwyntio ar lais y rhai sydd ddim yn ddynol yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

- Archwiliwch straeon "newyddion da" am gadwraeth, fel ailgyflwyno barcutiaid coch i Gymru, gan ddefnyddio peiriant chwilio.

- Archwiliwch brosiectau ail-wylltio a'u heffaith ar ail-gydbwyso ecoleg tirwedd e.e. Prosiect Afanc Cernyw.

- Ymchwiliwch straeon ymgyrchwyr bywyd gwyllt ifanc a newid hinsawdd ysbrydoledig ledled y DU ac o amgylch y byd a'u negeseuon penodol e.e. Greta Thunberg, Dara McAnulty, Mya-Rose Craig (Birdgirl UK), Artemisa Xakriabá a Leah Namugerwa.

6. Celfyddydau Mynegiannol

- Creuwch enfys 3D allan o bapur lliw a deunyddiau wedi'u hailgylchu.
- Archwiliwch symudiadau gwahanol anifeiliaid o amgylch eich ystafell ddosbarth, cae ysgol, neu neuadd yr ysgol. Sut deimlad yw cerdded fel jiraff, llithro fel neidr, hedfan fel gwenyn? Creuwch ddawns yn seiliedig ar symudiadau anifeiliaid.
- Sefwch y tu allan a gwrandewch ar y gwahanol synau y gallwch chi eu clywed. Creuwch fap sain gweledol o ardal eich ysgol. Wedyn, ail-greuwch y map sain hwnnw yn eich ystafell ddosbarth gan ddefnyddio lleisiau, cyrff ac offerynnau os oes gennych chi rai.
- Creuwch fap sain tebyg ar gyfer cynefin dychmygol fel twndra, coedwig law, pen mynydd, llawr y cefnfor.
- Edrychwch ar batrymau mewn crwyn anifeiliaid, plu a ffwr a gweld a allwch chi eu hail-greu, neu hyd yn oed greu anifail cwbl newydd.
- Defnyddiwch y gwaith hwn i greu cymeriad newydd yn y stori sydd, fel y Ferch, â gwahanol rannau o gorff anifeiliaid. Sut maen nhw'n symud? Sut maen nhw'n siarad? Pa bwerau sydd ganddyn nhw?
- Creuwch rywogaeth leol sydd mewn perygl e.e. draenog / glöyn byw o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu neu wrthrychau y daethpwyd o hyd iddynt (mwd, ffyn, dail).
- Ewch ar daith stori o amgylch tir eich ysgol neu'ch ardal leol, gan rannu ffeithiau neu straeon anifeiliaid wrth i chi fynd, ac annog eich dosbarth i gasglu gwrthrychau a ddarganfyddwyd wrth iddynt gerdded. Pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol, crëuwch "ffyn taith" yn dehongli eich teithiau cerdded: defnyddiwch un ffon hir gydag eitemau eraill a ddarganfyddwyd fel dail, mes, concyrs yn hongian ohono â chotwm.
- Adeiladwch fodel o'r Llyfrgell mewn blwch esgidiau.
- Gwnewch luniau arsylwadol o blanhigion ac anifeiliaid, yn ddelfrydol rhai sy'n lleol i Gymru.

7. Iechyd a Lles

Adeiladwch fewn amser ar gyfer myfyrdodau rheolaidd gyda'ch dosbarth. Sut mae ein gweithredoedd fel unigolion ac fel grwp yn effeithio ar y byd o'n cwmpas? Pa emosiynau rydyn ni'n eu profi wrth wneud y gwaith hwn?

Rydyn ni'n eich herio chi i newid y ffordd mae'ch dosbarth yn meddwl am y byd naturiol o'u cwmpas - i dyfu i'w garu a theimlo ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag ato. A allwch chi wneud hyn trwy adeiladu mwy o amser yn yr awyr agored bob dydd, a chynyddu lles eich dosbarth hefyd? Dyma rai syniadau ar gyfer cynnwys gweithgareddau awyr agored yn eich bywyd ysgol bob dydd.

Sut allwch chi rannu eich canfyddiadau o'r prosiect hwn gyda gweddill yr ysgol? A allech chi wneud gwasanaeth ysgol, creu fideo i'w rannu o amgylch pob dosbarth yn yr ysgol, neu wneud tudalen wê yn galw'r ysgol i weithredu? Bydd hyn yn bwydo i mewn i ran olaf y pecyn adnoddau hwn.

10 munud yn yr awyr agored

- Ymarfer anadlu ar iard yr ysgol
- Myfyrdod gwrando
- Gêm o styc yn y mwd yn cael ei chwarae fel gwahanol anifeiliaid
- Rhwbiadau rhisgl
- Brêc dawns awyr agored (dewch â'ch ffôn am gerddoriaeth)

20 munud yn yr awyr agored

- Helfa yn y tu fas yn ymwneud â themâu'r prosiect
- Ymarfer cân ar gyfer gwasanaeth y tu allan yn lle yn yr ystafell ddosbarth
- Grŵp darllen yn yr awyr agored
- Ioga dosbarth

30 munud yn yr awyr agored

- Llun arsylwadol o'r tirwedd (ar neu oddi ar safle'r ysgol)
- Arolygon yn ymwneud â'r prosiect dosbarth
- Dod o hyd i wrthrychau ar gyfer gwneud cerfluniau neu waith celf
- Clywed stori ddosbarth ac yna chwarae neu archwilio heb strwythur o amgylch y stori honno

1 awr+ yn yr awyr agored

- Gwnewch wers gyfan yn yr awyr agored. Gall eich dosbarth eistedd ar eu cotiau a gweithio ar eu lapiau
- Teithiau stori ac archwiliadau oddi ar safle'r ysgol

Rhan 3

Newid y byd

Neges olaf Llyfrgell Bywyd yw bod gan bob bod dynol ar y blaned ran i'w chwarae wrth frwydro yn erbyn colli bioamrywiaeth a chwalu hinsawdd. Rydyn ni am adael eich dosbarth gyda theimlad o uchelgais obeithiol a chadarnhaol i gymryd cyfrifoldeb am eu bywyd gwyllt lleol a gwneud ychydig o newidiadau yn eu bywydau bob dydd a fydd yn y pen draw yn arwain at newidiadau cymdeithasol mwy a mwy effeithiol.

Sut gall eich dosbarth arwain y ffordd i newid y byd nawr eich bod wedi dod i ddiwedd eich dysgu o amgylch y prosiect hwn? A allwch chi fod yr arloeswyr sy'n gwneud newidiadau bach ym mywyd eich ysgol sy'n arwain at newidiadau mawr yn y pen draw?

Dychwelwch at y pedair darlun allweddol yn y llyfr, gan orffen gyda'r ddelwedd "cydweithio". Beth sy'n digwydd yn y llun hwn? Beth maen nhw'n ei ddweud wrth ei gilydd? Beth yw manteision cydweithio? Pa sgiliau y gall gwahanol bobl eu cynnig i ddatrys problemau?

Nawr, dychwelwch at y mapiau meddwl a wnaethoch ar ddechrau'r prosiect? Allwch chi ychwanegu mwy atynt nawr?

Beth allwch chi ei wneud i newid y byd fel dosbarth?
Fel ysgol?
Fel teulu?
Fel cenedl?
Ar draws y byd?

Bydd gweithio gyda' n gilydd a chydweithio fel cymuned yn gwneud byd o wahaniaeth.

Gyda'ch dosbarth, crëwch gynllun gweithredu ar gyfer yr wythnosau, y misoedd a'r blynyddoedd yn dilyn eu gwaith ar y prosiect hwn. Gall y syniadau yn y cynllun fodoli ar raddfa o newidiadau bach dyddiol fel cerdded i'r ysgol yn lle gyrru a bod yn "fonitor goleuadau" gartref i newidiadau mawr fel dynodi elusen bywyd gwyllt yn bartner codi arian yr ysgol am flwyddyn neu wneud addewidion hir dymor.

Dyma rai syniadau y gallech chi siarad amdanyn nhw gyda'ch dosbarth. Yn sicr bydd ganddyn nhw lawer eu hunain.

- Cynlluniwch ddigwyddiad codi arian ar gyfer prosiect natur lleol neu elusen bywyd gwyllt yn eich ysgol.

  Gwnewch eich ysgol yn ysgol sy'n tyfu bwyd gyda Sustain.

  Am ragor o wybodaeth ewch at: https://www.sustainweb.org/publications/every_school_a_food_growing_school/
- Cyflwynwch gynllun tymor hir ar gyfer gwneud cartref i fywyd gwyllt i Glwb Eco neu ofalwr yr ysgol.
- Ymunwch â phrosiect gwyddoniaeth dinasyddion.
- Annogwch pob plentyn unigol i wneud addewid hinsawdd gyda'i deulu. Gallai hyn fod i beidio â hedfan am flwyddyn, newid darparwyr ynni i ynni gwyrdd, ymgyrchu dros blaid wleidyddol â pholisïau gwyrdd, neu newid banciau i un nad yw'n buddsoddi mewn tanwydd ffosil.
- Gosodwch newid strwythurol tymor hir i fywyd yr ysgol fel Dydd Llun Di-Gig, Dydd Mawrth Di-Bapur, neu awr heb oleuadau / di-dechnoleg bob dydd, yn enwedig ar ddiwrnodau pan fydd digon o olau naturiol.

Casgliad

Gadewch i'ch antur ddechrau! Gobeithiwn y bydd y pecyn hwn yn eich helpu chi a'ch dosbarth i ddysgu llawer, adeiladu gobaith, gweithredu mewn ffordd positif, a phweru'ch plant i wybod mai nhw yw dyfodol y blaned hon. Os gallwn ddysgu plant i weithio gyda'i gilydd, dod o hyd i atebion fel cymuned, a dychmygu byd heddychlon a chytbwys, gwyddom y byddant yn gwneud gwahaniaeth!




Library of Life

Gwefannau defnyddiol

Mae gan y mwyafrif o'r sefydliadau a restrir weithgareddau ysgolion a phlant ar eu tudalennau gwe, ynghyd â syniadau ar sut wi wella tir ar gyfer bywyd gwyllt.

Sefydliadau Bywyd Gwyllt

Plantlife	www.plantlife.org.uk/wales
Woodland Trust	www.woodlandtrust.org.uk
Bugslife	www.buglife.org.uk
RSPB	www.rspb.org.uk
Hedgehog Street	www.hedgehogstreet.org
Mammal Society	www.mammal.org.uk
Butterfly conservation	www.butterfly-conservation.org/
Bumblebee Trust	www.bumblebeeconservation.org
Frog Life	www.froglife.org
Amphibian & Reptile Conservation	www.arc-trust.org
Wildlife Trust Wales	www.welshwildlife.org

Adnoddau Addysgu

Wildlife Watch	www.wildlifewatch.org.uk
Forest schools Wales	www.forestschoolwales.org.uk
Eco schools	www.keepwalestidy.cymru/pages/category/eco-schools
Outdoor Learning Wales	www.outdoorlearningwales.org/home
National Resources Wales	www.naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/education-learning-and-skills/?lang=en

Gofalu am y planed

Worldwide Fund for Nature	www.wwf.org.uk
Friends of the Earth	www.friendsoftheearth.uk
Greenpeace	www.greenpeace.org.uk

Gwella tiroedd ysgol

Learning Through Landscapes	www.ltl.org.uk

Celf ar y Blaen
Head4Arts

The Parent Network
CAERPHILLY

Petra
PUBLISHING
Parents Engaging To Raise Aspirations

CAERPHILLY
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CAERFFILI

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

dpd